# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION**

Dyddiad ac Amser

**3.00 y.h., DYDD IAU, 11EG CHWEFROR, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 5 Chwefror 2021)

# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| E. Selwyn Griffiths | Annwen Hughes |
| Peredur Jenkins | Mair Rowlands |
| Dyfrig L. Siencyn | Gethin Glyn Williams |
| Dafydd Meurig | Olaf Cai Larsen |

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Eric M. Jones | Eryl Jones-Williams |
| Dewi Wyn Roberts | Angela Russell |

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Robert Glyn Daniels | Alwyn Gruffydd |

## Y Blaid Genedlaethol (1)

Y Cynghorydd Peter Read

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2020 / 21

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2020 / 21

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION 5 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 11eg Chwefror 2020 fel rhai cywir

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL POLISI TAL Y CYNGOR 7 - 17

I ystyried adroddiad y Prif Weithredwr

## 8. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma fyddai'n gorbwysio hawliau'r unigolion yma . O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.

## 9. CYFLOGAU PRIF SWYDDOGION

I ystyried adroddiad y Prif Weithredwr

(copi ar wahân i Aelodau'r Pwyllgor yn unig)

## 10. AIL AGOR Y CYFARFOD I'R WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig ail agor y cyfarfod ar gyfer y wasg a’r cyhoedd

**11. RECRIWTIO A PHENODI PRIF WEITHREDWR** 18 - 20

Cytuno ar y trefniadau ar gyfer recriwtio a phenodi Prif Weithredwr

# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 11.02.20

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr: Medwyn Hughes, Selwyn Griffiths, Peredur Jenkins, Eric M. Jones, Dafydd Meurig (Cadeirydd), Dewi W Roberts, Angela Russell a Dyfrig Siencyn

**Hefyd yn Bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr) Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Glyn Daniels, Eryl Jones-Williams, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, Cai Larsen, Mair Rowlands a Gethin Glyn Williams

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y canlynol fuddiant personol am y rhesymau a nodir:

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr) a Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol) yn eitem 5 ar y rhaglen gan ei bod yn brif swyddogion ac felly yn destun y Polisi Tâl – y naill oherwydd y rhan yn ymwneud a chyflog y Prif Weithredwr a'r llall oherwydd y rhan yn ymwneud a chyflogau prif swyddogion. Pe byddai yna unrhyw drafodaeth ar y materion perthnasol, byddent yn ymadael a'r ystafell.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 19.07.19 fel rhai cywir

**5. ADRODDIAD BLYNYDDOL POLISI TAL Y CYNGOR**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi bod dyletswydd statudol ar y Cyngor i baratoi datganiad polisi tal ac yn unol â chais y Cyngor, roedd disgwyliad i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion gynnal adolygiad o gynaliadwyedd y polisi ac i gyflwyno unrhyw argymhellion yn dilyn adolygu'r polisi tâl i'r Cyngor Llawn yn flynyddol. Adroddwyd nad oedd addasiadau i'r polisi eleni, ond yn unol â chyfansoddiad y Cyngor roedd angen ystyried cynaladwyedd y polisi i'r dyfodol.

Amlygodd y Prif Weithredwr gan nad oeddem wedi adolygu cyflogau Penaethiaid y Cyngor ers cryn amser roedd yna berygl i ni syrthio tu ôl i gynghorau eraill yn ddiymwybod i ni ein hunain. O ganlyniad, amlygodd bod bwriad ganddo i gynnal adolygiad o'r cyflogau drwy gymharu cyflogau awdurdodau cyfagos gyda chyflogau cyfatebol mewn sefydliadau eraill yn y sector gyhoeddus. Ategodd y byddai'r adolygiad yn debygol o amlygu'r sefyllfa ynghyd a risgiau posib i'r Cyngor. Byddai'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn yn ystod y flwyddyn

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r drefn bresennol, nodwyd bod cyflogau Penaethiaid wedi eu gosod yn unol â chyngor a chynllun arfarnu yr Hay Group sydd yn cynghori awdurdodau ar draws y wlad. Nodwyd mai'r anfantais gyda hyn yw bod y gymhariaeth efallai yn rhy eang a bod angen canolbwyntio ar ystyriaethau a chymariaethau lleol.

Er nad oedd addasiadau i'r polisi tynnwyd sylw at rai materion.

- Bod Adolygiad Hutton o Gyflog Teg yn y Sector Gyhoeddus yn argymell cymhareb o ddim mwy na 1:20 rhwng y cyflog uchaf a'r cyflog isaf (llawn-amser). Mae'r gymhareb hon ar hyn o bryd yng Nghyngor Gwynedd yn 1:6.2 a'r gymhareb rhwng canolrif cyflog Prif Swyddogion a'r cyflog isaf yn 1:4.4.

Diolchwyd am y cyflwyniad.

Mewn ymateb i sylw bod angen adolygu'r cyflogau isel hefyd i sicrhau 'balans', atgoffwyd yr Aelodau bod dau bwynt isaf y cyn-strwythur tâl cenedlaethol wedi eu dileu ac oddi ar y 1af o Ebrill 2019, £9.18ya oedd isafswm cyflog Cyngor Gwynedd. Yn Nhachwedd 2019, cyhoeddodd y Sefydliad Cyflog Byw bod Cyflog Byw yn cynyddu i £9.30ya fyddai'n golygu bod staff Cyngor Gwynedd, gyda chynnydd o 2% oddi ar y 1af o Ebrill 2020, yn derbyn £9.36ya. Amlygwyd bod cynnig ffurfiol o 2% wedi ei wneud gan y cyflogwr eisoes ond bod yr Undebau wedi cyflwyno cais am gynnydd o 10%. Nodwyd bod trafodaethau cenedlaethol yn cael eu cynnal er mwyn ceisio cytundeb.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag adolygiad o'r holl gyflogau staff, adroddwyd bod yr adolygiad tal lleol wedi ei gynnal yn 2008 a bod y gwaith hwnnw wedi gosod seiliau cadarn ar gyfer sicrhau cyflog cyfartal o fewn y Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag adolygiad o'r holl gyflogau staff, adroddwyd bod yr adolygiad diwethaf wedi ei gynnal yn 2008.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â datganiad yn yr adroddiad y byddai'r Cyngor Llawn yn cymeradwyo unrhyw newid i becyn cyflog swydd (cyflog o £100,000 a throsodd) nodwyd nad oedd y ffigwr yn hyblyg gan ei fod yn dilyn arweiniad cenedlaethol, statudol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â derbyn barn ac argymhelliad gan Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wrth i Gynghorau ystyried addasu graddfeydd cyflog prif swyddogion, nodwyd yr angen i gyflwyno awgrymiadau i'r Panel wedi i'r adolygiad ei gwblhau'

Cynigiwyd ac eiliwyd i dderbyn yr adroddiad a gwneud cais i'r Prif Weithredwr gwblhau'r adolygiad o gyflogau Prif Swyddogion 'ar fyrder' ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn.

**PENDERFYNWYD DERBYN YR ADRODDIAD YN UNOL Â'R ARGYMHELLIAD.**

- **Bod y Pwyllgor Penodi yn cynnig y Datganiad o Bolisi Tâl (drafft) i'r Cyngor ar Fawrth y 5ed 2020, fel un i'w fabwysiadu ar gyfer 2020 / 21**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 2:30pm

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion** |
| **Dyddiad:** | **11 Chwefror 2021** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol – Polisi Tâl y Cyngor** |
| **Pwrpas** | **Cytuno ar argymhelliad i'r Cyngor llawn** |
| **Awdur:** | **Dilwyn Williams – Prif Weithredwr** |

## CEFNDIR

**1.** Ers 2012 mae yna ddyletswydd statudol ar bob Cyngor i fabwysiadu polisi tâl yn flynyddol. Mae'r gofyn statudol hwnnw yn nodi mai swyddogaeth i'r Cyngor llawn yw cymeradwyo'r polisi tâl.

**2.** Wrth fabwysiadu'r polisi tâl ar gyfer 2012 / 13, penderfynodd y Cyngor llawn ofyn i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion gynnal adolygiad blynyddol o gynaladwyedd y polisi tâl i'r dyfodol a chyflwyno argymhellion i gyfarfod o'r Cyngor llawn ym mis Mawrth pob blwyddyn.

**3.** Gofynnir i'r Pwyllgor hwn felly ystyried cynnwys y drafft o bolisi tâl ar gyfer 2021 / 22 a chyflwyno argymhelliad i gyfarfod o'r Cyngor llawn ar y 4ydd o Fawrth eleni.

## PRIF SWYDDOGION

**4.** Yn y cyfarfod cyfatebol y flwyddyn diwethaf, bu i'r pwyllgor ofyn i mi gynnal adolygiad o gyflogau Prif Swyddogion. Roedd hynny yn sgil y ffaith nad yw'r Cyngor wedi adolygu cyflogau ei Brif Swyddogion ers sawl blwyddyn, a bod angen bod yn fyw i'r posibilrwydd ein bod yn syrthio y tu ôl i sefydliadau cyfatebol a chyfagos wrth gymharu cyflogau, a bod yna risgiau posib yn deillio o hynny. Rwyf yn adrodd ar fy nghasgliadau mewn adroddiad ar wahân i'r eitem hon; bydd eich argymhelliad fel pwyllgor ar hynny yn cael ei ymgorffori yn y Polisi Tâl a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Mawrth.

**5.** Yn gwbl ar wahân i'r adolygiad uchod, dylid cofio fod gan bob Prif Swyddog yr hawl i'r codiadau cyflog sy'n cael eu pennu yn genedlaethol gan y Cyd-Gyngor Trafod Telerau Cenedlaethol ar Gyfer Prif Swyddogion. Mae'r rhain yn delerau cytundebol y mae'n rhaid i bob cyflogwr weithredu arnynt. Gyda hyn mewn golwg, mae'r drafft polisi tâl yn datgan '**fod gan y Prif Swyddogion a gyflogir o dan amodau a thelerau y Cyd-Gyngor Cenedlaethol yr hawl cytundebol i unrhyw godiad cyflog cenedlaethol a ddyfernir gan y corff hwnnw a bydd y Cyngor felly yn talu'r rhain yn unol â gofynion cytundebol presennol.**' Wrth fabwysiadu'r polisi tâl blynyddol felly, mae'r Cyngor yn cymeradwyo'r codiadau cyflog cenedlaethol hyn. Ar gyfer y flwyddyn 2020/21 roedd y cynnydd yn y cyflogau yn 2.75%.

**6.** Nid yw'r trafodaethau ar y codiadau cyflog cenedlaethol gyfer 2021/22 wedi dechrau eto, ond mae posib na fydd yna gynnydd yn y flwyddyn sydd i ddod. Ym mis Tachwedd 2020 cyhoeddodd Canghellor Llywodraeth Prydain y byddai yna rewi ar gyflogau rhai rhannau o'r sector gyhoeddus am y tro. Er nad ydi effaith y cyhoeddiad hwn ar lywodraeth leol yn gwbl glir eto, mae'n bosib y bydd yn dylanwadu ar y trafodaethau cenedlaethol ar gynnydd yn y cyflog.

## SWYDDI O DAN LEFEL PRIF SWYDDOG

**7.** Mae gan staff sydd yn gweithio mewn swyddi o dan lefel Prif Swyddogion yr hawl cytundebol i godiadau cyflog sydd yn cael eu pennu gan y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar Gyfer Gweithlu Llywodraeth Leol. Roedd y cynnydd yn y cyflog ar gyfer 2020/21 yn 2.75%.

**8.** Fe all y cyhoeddiad i rewi cyflogau rhai rhannau o’r sector gyhoeddus fod yn berthnasol ar gyfer ein gweithlu ehangach ni am y flwyddyn sydd i ddod hefyd. Nid yw’r trafodaethau cenedlaethol ar gynnydd posib wedi dechrau eto, ond mae’n sefyll i reswm y gall y cyhoeddiad gan Lywodraeth Prydain ym mis Tachwedd ddylanwadu ar hynny. Pe bai yna gynnydd yn y cyflogau ar gyfer 2021/22 yna bydd y Cyngor yn gweithredu ar unrhyw benderfyniad cyn gynted â phosib.

## ARGYMHELLIAD

**9.** Bod y Pwyllgor yn cynnig y Datganiad o Bolisi Tâl drafft i’r Cyngor fel un i’w fabwysiadu ar gyfer 2021 / 22.

# Polisi Tâl – 2021 / 22

## 1. CYFLWYNIAD

Yn unol ag Adran 38(1) Deddf Lleoliaeth 2011, mae gofyn i bob Cyngor baratoi datganiad polisi tâl. Rhaid i'r datganiad hwn gyfleu beth yw polisïau'r Awdurdod ar nifer o faterion sy'n ymwneud â thâl ei weithlu, yn enwedig ei uwch staff (neu 'brif swyddogion') a'r gweithwyr sy'n cael y cyflogau isaf. Rhaid paratoi datganiad polisi tâl ar gyfer pob blwyddyn ariannol a rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd.

Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod pa mor allweddol yw rheoli cydnabyddiaeth ariannol mewn modd teg, cyson a thryloyw ac mae'r penderfyniadau a wneir yn y cyswllt hwn yn greiddiol i sicrhau cyflog cyfartal a chydraddoldeb ar draws y Cyngor.

## 2. POLISI TÂL AR GYFER PRIF SWYDDOGION

Mae'r Cyngor yn diffinio ei brif swyddogion fel a ganlyn: y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Penaethiaid Adran. Mae'r Cyngor yn gorff cyflogi atebol ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru hefyd, ac o ganlyniad mae swyddi prif swyddogion y cyrff hynny yn cael eu hystyried fel rhai sy'n disgyn o fewn gofynion y polisi hwn.

Mae'r Cyngor yn cyflogi prif swyddogion o dan amodau a thelerau'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol ac mae hynny wedi'i ymgorffori yn eu cytundebau. Mae'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion yn negodi codiad cyflog blynyddol cenedlaethol (DU) ar sail costau byw ar gyfer y grŵp hwn. Mae gan y Prif Swyddogion a gyflogir o dan amodau a thelerau'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol yr hawl cytundebol i unrhyw godiad cyflog cenedlaethol a ddyfernir gan y corff hwnnw a bydd y Cyngor felly yn talu'r rhain yn unol â gofynion cytundebol.

## 3. CYFLOGAU

Mabwysiadwyd y polisi sy'n ymwneud â chyflogau'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Penaethiaid Adran am y tro cyntaf yng nghyfarfod y Cyngor llawn ym mis Hydref 2009 ac yna ym Mehefin 2012, fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r Polisi Tâl yn ei gyfanrwydd. Cynhaliwyd adolygiad rhannol pellach o'r polisi ym Mawrth 2015 er mwyn adlewyrchu newidiadau strwythurol o fewn y Cyngor.

Mae cyflogau prif swyddogion yn seiliedig ar adroddiad annibynnol gan gwmni *Korn Ferry* (*Hay Group* yn flaenorol) ac ar eu cynllun arfarnu swyddi hwy.

Nid oes asesiad wedi ei gyflawni ers 2015. Bryd hynny, roedd cyflog swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol wedi ei osod fymryn yn is na'r chwartel isaf ar gyfer swyddi o faint cyfatebol o fewn y Farchnad Sector Cyhoeddus Cenedlaethol, fel ag yr oedd yn ymddangos yn Ionawr 2012, (golyga chwartel isaf bod 75% o'r sector yn cael cyflogau uwch).

Roedd cyflog y Pennaeth Addysg wedi'i osod ar ganolrif y cyflog a delir ar gyfer swyddi o faint cyfatebol o fewn y Farchnad Sector Cyhoeddus Cenedlaethol fel ag yr oedd yn ymddangos yn Ionawr 2012 (golyga canolrif bod 50% o'r sector yn cael cyflogau uwch).

Roedd cyflog y Pennaeth Cyllid wedi'i osod ar sail y chwartel isaf o'r cyflog a delir ar gyfer swyddi o faint cyfatebol o fewn y Farchnad Sector Cyhoeddus Cenedlaethol fel ag yr oedd yn ymddangos yn Ionawr 2012 (golyga chwartel isaf bod 75% o'r sector yn cael cyflogau uwch).

Roedd cyflogau'r Penaethiaid Adran eraill wedi eu gosod ar sail canolrif y cyflog a delir ar gyfer swyddi o faint cyfatebol o fewn y Farchnad Sector Cyhoeddus Cenedlaethol, fel ag yr oedd yn ymddangos yn Ionawr 2012 (golyga canolrif bod 50% o'r sector yn cael cyflogau uwch).

Mae tâl ar gyfer y Prif Weithredwr wedi ei osod yn unol â'r raddfa £109,638 - £118,063.

Nid yw'r Cyngor yn talu unrhyw daliadau bonws neu dâl sy'n seiliedig ar berfformiad i'w Brif Swyddogion. Mae amodau a thelerau gwaith lleol y Cyngor yn berthnasol i'w Brif Swyddogion, yn yr un modd ag ar gyfer gweddill y staff, oni nodir yn wahanol yn y polisïau unigol.

Mae cyflogau Prif Swyddogion y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor (Gweler Atodiad 1).

Mae Llywodraeth Cymru wedi ffurfio Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Mae gan y Panel hwn yr awdurdod i roi barn ac argymhelliad i gynghorau wrth iddynt ystyried addasu telerau cyflogi swyddi Prif Weithredwyr. Mewn sefyllfa ple bo'r Cyngor yn bwriadu newid lefel cyflog y Prif Weithredwr, a phle nad yw'r newid hwnnw yn cyd-fynd hefo newid i gyflogau swyddi gweddill cyflogeion y Cyngor, mae gofyn ymgynghori â'r Panel ynglŷn â'r newid arfaethedig cyn cymryd y penderfyniad terfynol.

## 4. SWYDDI O DAN LEFEL PRIF SWYDDOG

Mae polisi tâl y Cyngor ar gyfer gweddill ei staff yn seiliedig ar bolisi tâl cyfartal y Cyngor a'i gytundeb torfol â'r undebau llafur cydnabyddedig, ddaeth yn weithredol ar y 1af o Ebrill 2008. Mae strwythurau tâl y Cyngor yn destun archwiliadau tâl cyfartal.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu meini prawf Cynllun Arfarnu Swyddi GLPC fel sail i osod graddfa cyflog ar gyfer pob swydd sydd o dan Amodau Gwaith Gweithwyr Llywodraeth Leol. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i dalu cyflogau yn unol â deddfwriaeth cyflog cyfartal a'r cytundeb "statws sengl" rhwng cyflogwyr llywodraeth leol a'r undebau llafur cydnabyddedig a luniwyd yn 1997.

Nid yw'r Cyngor yn talu unrhyw daliadau bonws neu dâl sy'n seiliedig ar berfformiad ei weithwyr.

Mae'r berthynas rhwng tâl ei Brif Swyddogion a'i weithwyr eraill wedi ei ddylunio i alluogi'r Cyngor i recriwtio a chadw'r gweithwyr addas gorau yn ei swyddi amrywiol, tra'n cynnal y pwyntiau gwahaniaethol a arfarnwyd yn yr arfarniad swyddi.

Mae Adolygiad Hutton o Gyflog Teg yn y Sector Gyhoeddus yn argymell cymhareb o ddim mwy na 1:20 rhwng y cyflog uchaf a'r cyflog isaf (llawn-amser). Mae'r gymhareb hon ar hyn o bryd yn 1:6.4.

## 5. TÂL CYCHWYNNOL

Mae'r nifer o hicynnau sydd o fewn pob graddfa yn adlewyrchu'r cyfnod posib o ddatblygiad mewn swydd allai fod yn berthnasol i'r unigolion sydd ar y raddfa honno. Bydd aelodau staff yn cael eu penodi i'r pwynt cyflog o fewn y raddfa sydd yn adlewyrchu'r amser fydd ei angen er mwyn datblygu fel eu bod yn gallu ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd yn llawn.

Yn arferol, penodir pob gweithiwr i'r pwynt cyflog isaf o fewn y raddfa gyflog briodol. Os yw gweithiwr eisoes yn derbyn tâl uwchben y pwynt cyflog isaf neu os oes tystiolaeth ddigonol i arddangos bod y gweithiwr eisoes yn llawn gymwys i gyflawni nifer o agweddau o'r swydd, gall

rheolwr, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol neu ddirprwy, benodi ar bwynt cyflog uwch o fewn y raddfa gyflog briodol.

Os oes lle o fewn graddfa'r swydd, bydd pob aelod staff yn gymwys i dderbyn hicyn cyflog blynyddol ar y cyntaf o Ebrill, ar yr amod eu bod wedi'u penodi i'w swydd bresennol am fwy na chwe mis cyn y dyddiad hwnnw.

## 6. COSTAU AIL-LEOLI

Mewn sefyllfa pan ei bod yn angenrheidiol i weithiwr ail-leoli er mwyn ymgymryd â swydd, gall y Cyngor, o dan amgylchiadau arbennig, gyfrannu tuag at ad-daliad costau ail-leoli. Mae'r cynllun yn berthnasol i weithwyr a benodir o ganlyniad i hysbyseb neu'n dilyn ad-drefnu mewnol lle bydd rhaid iddynt symud tŷ.

Rhaid i gartref presennol y gweithiwr fod fwy na 20 milltir o'r ganolfan weinyddol cyn y gellir ystyried cais i ad-dalu costau.

O dan yr amgylchiadau hyn, telir cost symud dodrefn ac eiddo yn llawn, yn ddarostyngedig i dderbyn yr isaf o dri dyfynbris ynghyd a chost lawn storio dodrefn hyd at dri mis. Gellir gwneud cyfraniad hyd at £3,270 ar gyfer costau cyfreithiol, ffioedd arwerthwr tai, costau carpedi a llenni a mân gostau symud eraill yn amodol ar ddangos derbynebau perthnasol.

## 7. YCHWANEGIAD Y FARCHNAD

Mae graddfa cyflog pob swydd wedi ei seilio ar gynllun arfarnu swyddi'r Cyngor. Golyga hyn fod y system o dalu aelodau staff wedi ei seilio ar gydraddoldeb yn unol â'r diffiniad yn Neddf Cyflog Cyfartal 1970 ac yn sicrhau cysondeb o ran penderfyniadau sydd yn ymwneud â thâl. O ganlyniad fe allai unrhyw wyriad o'r system hon greu risg sydd angen ei reoleiddio'n gadarn. Mae'n rhaid bod rhesymau pendant a chlir os am gyfiawnhau unrhyw wyriad o'r trefniant hwn.

Fodd bynnag, fe allai sefyllfa godi pan fo pwysau'r farchnad yn creu problemau recriwtio a/neu gadw staff yng nghyswllt swydd benodol. Gall y Cyngor mewn rhai achosion eithriadol, ac er mwyn denu a/neu gadw unigolyn i swydd benodol, gynnig taliad ychwanegol i'r raddfa gyflog a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

Yn y cyswllt hwn dim ond pan fydd tystiolaeth ddogfennol ddigonol o fethiant i recriwtio a/neu gadw aelod staff y bydd ychwanegiad y farchnad yn cael ei ddefnyddio. Nid yw ychwanegiad y farchnad yn ychwanegiad parhaol i gyflog swydd. Os yw'r amgylchiadau sydd yn berthnasol i'r ychwanegiad yn newid, neu os yw aelod staff yn cael ei drosglwyddo gan y Cyngor i swydd arall nad yw'n denu ychwanegiad y farchnad, yna bydd hawl yr unigolyn hwnnw/honno i'r taliad yn peidio, a bydd yr atodiad yn cael ei atal yn unol â'r rhybudd priodol.

Mae'r Cyngor, yn ei gyfarfod ar y 9fed o Hydref, 2014, wedi cymeradwyo caniatáu darpariaeth ychwanegiad y farchnad o hyd at £3,000 ar gyfer Prif Swyddogion pan fo hynny wedi'i gyfiawnhau gan achos busnes. Nid oes nenfwd wedi'i osod yng nghyswllt lefel ychwanegiad y farchnad ar gyfer swyddi eraill.

## 8. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL (YMGYMRYD Â CHYFRIFOLDEBAU YCHWANEGOL)

Gellir caniatáu taliad ychwanegol pan fo aelod staff yn cytuno i gais i ymgymryd â chyfran o ddyletswyddau a chyfrifoldebau sydd y tu hwnt i ddyletswyddau a chyfrifoldebau arferol ei swydd ar sail dros dro. Mae'n rhaid i'r gyfran o ddyletswyddau a chyfrifoldebau uwch fod yn sylweddol, yn cael eu harfarnu ar lefel cyflog uwch a thros gyfnod estynedig cyn y gellir cynnig cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol dros-dro.

## 9. TALIADAU AR-DDYLETSWYDD, AR ALWAD A GALW ALLAN

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau yn unol ag anghenion pobl Gwynedd. Golyga hyn y bydd adegau pan fo gofyn i aelodau staff ymgymryd â dyletswyddau oddi allan i'r patrwm gwaith arferol ac ar adegau anghymdeithasol. Mae'r Cyngor yn cwrdd â'r anghenion ar gyfer y gwasanaethau hyn trwy:

- sicrhau fod staff cymwys ar gael i gymryd galwadau a phenderfynu ar weithredu priodol
- sicrhau fod gweithlu cymwys ar gael i fod ar alwad ac yn barod i gael eu galw allan ar fyr rybudd er mwyn ymateb i waith mewn argyfwng
- cydnabod y staff uchod trwy daliadau addas mewn cydnabyddiaeth o'r anghyfleustra a'r ymyrraeth mae gwaith o'r fath yn ei greu.

Diffinnir **ar ddyletswydd** fel cyfnod o amser pan fo swyddog ar ddyletswydd oddi allan i'r oriau gwaith arferol ar gyfer cyfnod penodol o amser, a'u bod **ar gael** i ymateb i alwadau gan drigolion, gwasanaethau brys a.y.b.

Diffinnir **ar alwad** fel cyfnod penodol o amser mae swyddog **ar gael** i'w alw allan y tu allan i'r oriau gwaith arferol.

Mewn rhai achosion bydd bod ar alwad neu ar ddyletswydd yn ffurfio rhan o gyflog sylfaenol swyddogion. Mewn achos o'r fath bydd y cytundeb cyflogaeth yn nodi hynny'n glir. Ni fydd gan y swyddogion hynny'r hawl i daliad ychwanegol pan ar alwad/ar ddyletswydd. Bydd swyddogion eraill yn derbyn tâl ar ffurf taliad ychwanegol a fydd yn adlewyrchu lefel yr anghyfleustra ar gyfer bod ar gael i ymateb i alwad tu hwnt i oriau gwaith arferol. Bydd y swyddogion hynny yn derbyn lleiafswm o ddwy awr ar y cyflog priodol pob tro maent yn cael eu galw allan (gan gynnwys amser teithio).

Mae taliadau ar alwad/ar ddyletswydd yn cael eu diweddaru'n flynyddol i adlewyrchu'r cynnydd cyflog blynyddol yn unol â'r hyn a gytunir gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol.

## 10. FFIOEDD PROFFESIYNOL

Ad-delir un ffi'r flwyddyn i Swyddogion ar gyfer aelodaeth o gorff cydnabyddedig sy’n berthnasol i’w swyddogaeth broffesiynol a phle bo’r aelodaeth hwnnw yn ofyniad gan y Cyngor.

## 11. DEFNYDDWYR CAR

Dynodir pob gweithiwr fel defnyddiwr car achlysurol a thelir ad-daliadau am deithiau busnes ar sail graddfeydd Swyddfa Cyllid y Wlad.

## 12. TREULIAU CYNHALIAETH

Telir ad-daliadau cynhaliaeth, ar gyflwyniad derbynneb, os yw aelod staff yn teithio tu allan i'r Sir ar gyfer brecwast, cinio, te a swper, a hynny hyd at yr uchafswm ar gyfer lwfansau cynhaliaeth. Ar gyfer y staff hynny sydd â'u gwaith yn golygu eu bod yn teithio ar draws mwy nag un Sir e.e. Gwynedd a Môn, diffinnir "y tu allan i'r Sir" fel y tu allan i'r ardal waith arferol.

## 13. GWEITHIO ORIAU YCHWANEGOL



DRAFT

Telir gweithwyr, a gyflogir ar bwynt 22 neu is, ar sail unwaith a hanner o'r cyflog sylfaenol yr awr pan yn gweithio mwy na 37 awr mewn wythnos (trefniadau amgen ar gyfer gweithwyr gyda phatrymau gwaith pan fo'r oriau a weithir ar sail pythefnos/misol neu flynyddol). Caniateir tâl sylfaenol neu amser yn ei le i staff a gyflogir ar bwynt uwch na 22 pan eu bod yn gweithio mwy na 37 awr, neu os yw Pennaeth Adran wedi cymeradwyo'r gwaith ychwanegol ymlaen llaw yna gellir awdurdodi tâl ar sail amser a hanner.

## 14. GWEITHIO ORIAU ANGHYMDEITHASOL

Telir cyflog ar y raddfa sylfaenol am waith, oddi fewn i'r 37 awr, a gyflawnir ar y penwythnos. Telir tâl chwyddedig o dâl sylfaenol a thraean rhan o'r cyflog am waith a gyflawnir rhwng 10 y nos a 6 y bore i weithwyr sy'n gweithio yn ystod yr oriau hynny.

Telir cyflog yn unol â'r cytundeb cenedlaethol ar gyfer gwaith a gyflawnir ar wyliau banc a gwyliau statudol ychwanegol.

## 15. LWFANS CYMORTH CYNTAF

Telir lwfans blynyddol i weithwyr sydd yn gweithredu fel Cymorthyddion Cyntaf dynodedig.

## 16. DYLETSWYDDAU ETHOLIADAU LLEOL

Mae ffioedd y Cyngor ar gyfer taliadau i'r Swyddog Canlyniadau a'r Dirprwy Swyddog Canlyniadau am ddyletswyddau etholiadau lleol wedi'u cynnwys yn Atodiad 2.

## 17. DISWYDDO AC YMDDEOL

Mae cynlluniau diswyddo ac ymddeol y Cyngor yn cael eu gweithredu'n gyfartal a theg i bob aelod staff, waeth beth fo'u graddfa cyflog, eu hoedran neu eu rhyw ac fe'i gweithredir yn unol â rheoliadau'r cynlluniau pensiwn perthnasol. Nid oes unrhyw eithriadau i Brif Swyddogion. Mae'r polisïau perthnasol ar gael ar wefan y Cyngor.

Ym mis Tachwedd 2020, daeth y Rheoliadau Cyfyngu ar Daliadau Ymadael y Sector Gyhoeddus 2020 i rym gan Lywodraeth Prydain. Mae'r rheoliadau hyn yn gosod uchafswm o £95,000 ar gyfanswm pecyn diswyddo aelod o staff unigol. Yn y cyd-destun hwn mae 'pecyn diswyddo' yn golygu cyfanswm y tâl diswyddo, y tâl sy'n ddyledus yn ystod cyfnod rhybudd diswyddiad ac unrhyw gost i'r cyflogwr sy'n deillio o'r angen i ryddhau pensiwn yn gynnar.

Mae'r rheoliadau hyn yn golygu fod cyfrifoldeb ar awdurdod lleol i sicrhau na wneir taliad ymadael i unrhyw aelod staff sydd yn uwch na'r terfyn o £95,000, heb yn y lle cyntaf dderbyn cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

Pe bai yna sefyllfa pan fod gan aelod staff unigol yr hawl cytundebol i becyn diswyddo sydd yn uwch na £95,000, yna fe fyddai cyfle yn y lle cyntaf i'r Cyngor llawn bleidleisio ar y pecyn, cyn i'r mater gael ei gyfeirio i sylw Gweinidogion Cymru.

## 18. CYNLLUN COLLED ARIANNOL

Diffinnir colled ariannol fel colled o ganlyniad i newid mewn graddfa cyflog ac amodau a thelerau cytundebol. Mae'r Cyngor yn darparu cymorth ariannol i staff sy'n wynebu sefyllfa o golled ariannol (yn sgil ail-strwythuro neu ail-ddyrannu cyfrifoldebau) am gyfnod o ddwy flynedd oddi ar ddyddiad gweithredol y newid i'w pecyn cyflogaeth, gyda 100% o warchodaeth yn y flwyddyn gyntaf a 50%

yn yr ail. Bydd y cymorth ariannol hwnnw yn dod i ben ar ôl dwy flynedd oni bo'r aelod staff unigol yn y cyfamser wedi'i benodi i swydd arall ple nad yw o/hi yn wynebu'r golled ariannol.

**19. AIL-GYFLOGI**

Bydd y Cyngor yn ystyried pob ymgeisydd yn ôl ei r(h)inweddau ei hun a bydd yn penodi gyda'r bwriad o gyflawni'r effeithlonrwydd gorau ar gyfer y gwasanaeth a'r gwerth gorau ar gyfer ei drethdalwyr. Byddai'r fath benodiad, os byddai'n cael ei wneud, yn destun unrhyw leihad a nodir yn y Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Yn unol â deddfwriaeth trethiant, rhaid i reolwyr sicrhau ym mhob achos fod unrhyw drefniant i dalu unigolyn am waith trwy 'gytundeb o wasanaeth' wedi bod yn destun prawf statws cyflogaeth fel sy'n ymddangos ar wefan CThEM, a cynhelir y prawf yma yn hollol wrthrychol.

**20. PENODI PRIF SWYDDOG NEWYDD (CYFLOG O £100,000 A THROSODD)**

Bydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo unrhyw newid i becyn cyflog swydd o'r fath cyn yr eir ati i recriwtio. Byddai angen cyfeirio'r mater at Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol hefyd, yn unol â rhan 3 o'r polisi hwn.

Hysbysebir yn allanol ar gyfer llenwi swydd o'r fath.

DRAFFT

**ATODIAD 1**

# Cyflogau Prif Swyddogion o fis Ebrill 2021 ymlaen

| | |
|---|---|
| Prif Weithredwr | £109,638 - £118,063 |
| Cyfarwyddwr Strategol | £89,058 - £98,954 |
| Pennaeth Addysg | £83,330 - £92,590 |
| Pennaeth Cyllid | £75,596 - £83,993 |
| Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Economi a Chymuned, Oedolion, Iechyd a Llesiant, Plant a Chefnogi Teuluoedd, Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Amgylchedd, Tai ac Eiddo, Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Arweiniol ar gyfer yr Asiantaeth) | £70,342 - £78,156 |
| Pennaeth Ymgynghoriaeth | £59,419 - £66,021 |
| Swyddog Monitro | £59,608 - £62,553 |

DRAFT

DRAFT

**ATODIAD 2**

## TREULIAU'R CYNLLUN TALIADAU ETHOLIADAU FEL A GYMERADWYWYD GAN GYNGOR GWYNEDD

| **Ffioedd ar gyfer cynnal yr etholiad yn gyffredinol a chwblhau'r holl ddyletswyddau ble bo angen i Swyddog Canlyniadau weithredu dan unrhyw orchymyn neu ymddeddfiad sy'n ymwneud ag ethol Cynghorwyr.** | | |
|---|---|---|
| **Ffioedd Swyddog Canlyniadau a'r Dirprwy Swyddog Canlyniadau** | **Wedi eu herio** | **Heb eu Herio** |
| Swyddog Canlyniadau | 125.00 | |
| Am gynnal yr etholiad yn gyffredinol a chwblhau'r holl ddyletswyddau ble bo angen i Swyddog Canlyniadau weithredu dan unrhyw orchymyn neu ymddeddfiad sy'n ymwneud ag ethol Cynghorwyr | | ) |
| Ar gyfer pob Rhanbarth Etholiadol, Cyngor Cymuned / Tref, Ward Cyngor Cymuned / Tref | | ) ) ) 75.00 |
| Dirprwy Swyddog Canlyniadau | 85.00 | ) ) |
| Dyletswyddau penodol i gynnwys bod yn bresennol i dderbyn papurau pleidleisio, eu harchwilio a beirniadu a ydynt yn ddilys; ymdrin gydag ymgeiswyr; hysbysu ymgeiswyr am benderfyniadau gydag enwebiadau; cyhoeddi datganiadau am bobl a enwebwyd, a bod yn bresennol i dderbyn unrhyw achos o dynnu yn ôl a rheoli'r cyfrif | | ) ) ) ) |

| | | |
|---|---|---|
| Ar gyfer pob Rhanbarth Etholiadol, Cyngor Cymuned / Tref, Ward Cyngor Cymuned / Tref.<br><br>Isetholiadau<br><br>Mewn unrhyw isetholiad lle y cyflogir Dirprwy Swyddog Canlyniadau i reoli'r cyfrif:<br><br>Ar gyfer pob Rhanbarth Etholiadol, Cyngor Cymuned / Tref, Ward Cyngor Cymuned / Tref. | 34.00 | |

DRAFFT

# Eitem 11

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion** |
| **Dyddiad:** | **11 Chwefror 2021** |
| **Teitl:** | **Recriwtio a Phenodi Prif Weithredwr** |
| **Pwrpas:** | **Cytuno ar y trefniadau ar gyfer recriwtio a phenodi i'r swydd** |
| **Awdur:** | **Eurig Williams – Rheolwr Adnoddau Dynol** |

1. **CEFNDIR**

Mae'r Prif Weithredwr wedi hysbysu'r Cyngor o'i fwriad i ymddeol ar yr 31ain o Fawrth eleni. Mae'r amserlen yn dynn ar gyfer penodi Prif Weithredwr newydd cyn y dyddiad ymddeol ac felly yn ei gyfarfod ar y 26ain o Ionawr, penderfynodd y Cabinet y dylid symud ymlaen yn ddiymdroi i ddechrau'r gwaith o lenwi'r swydd allweddol hon.

2. **RÔL Y PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION**

Mae gan y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion rôl allweddol yn y broses o benodi Prif Weithredwr. Yn benodol mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni'r canlynol ar ran y Cyngor:

- Tynnu rhestr fer o ymgeiswyr i'w gyrru ymlaen trwy broses asesu.
- Cynnal cyfweliadau â'r ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer.
- Penderfynu a oes ymgeisydd addas y gellid cynnig y swydd iddo / iddi, a rhoi'r argymhelliad hwnnw i'r Cyngor llawn.

3. **CAMAU NESAF ARFAETHEDIG**

Rydym ar hyn o bryd yn gweithio ar dynnu amserlen a fydd yn ein galluogi i benodi erbyn mis Mai ar y cynharaf. Yn wyneb hynny, mae Arweinydd y Cyngor wedi cynnal trafodaeth gyda'r Prif Weithredwr presennol ac mae o wedi cytuno y byddai'n fodlon ymddeol yn hyblyg ar y 31 o Fawrth gan barhau i ymgymryd a'i swyddogaeth yn rhan-amser hyd nes y bydd olynydd wedi'i b/phenodi ac o leiaf hyd at etholiad y Senedd ar y 6 o Fai, 2021.

Dyma brif gerrig milltir y broses recriwtio a phenodi, a'r amserlen sydd dan ystyriaeth ar hyn o bryd:

- 24ain o Chwefror – hysbyseb yn ymddangos yn y wasg.
- 11eg o Fawrth – dyddiad cau.
- 19eg o Fawrth – Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i gyfarfod i drafod y rhestr fer.
- Wythnos yn dechrau'r 22ain o Fawrth – Canolfan Asesu (Rhithiol).

- 15fed o Ebrill – Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i gyfweld ac argymell ymgeisydd i'w penodi.

- 21ain o Ebrill – Cyfarfod arbennig o'r Cyngor llawn er mwyn cadarnhau'r penodiad.

Dylid nodi mai amserlen arfaethedig yw'r uchod ar hyn o bryd; bydd angen i'r pwyllgor fod yn fodlon â'r amserlen hon.